



**Cambrian
Training**
Hyfforddiant
Cambrian

**YMGYSYLLTU.
YSBRYDOLI.
LLWYDDO.**



CYNLLUN STRATEGOL 2019 – 2022



YNGHYLCH HYFFORDDIANT CAMBRIAN...

Yn Hyfforddiant Cambrian, mae gennym hen hanes o ddarparu rhaglenni prentisiaeth sy'n helpu i gefnogi busnesau ac unigolion i dyfu a ffynnu yn eu cymunedau.

Rydym yn darparu rhaglenni prentisiaeth seiliedig ar waith yn y sectorau canlynol: Lletygarwch, Bwyd a Diod, Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu, Peirianeg, Busnes a Gweinyddu, Arwain Tîm, Rheoli, Gwasanaethau Cynllunio Ariannol, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Sgiliau Adwerthu, Gofal Ceffylau ac Anifeiliaid ac yn y sector Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar ar draws Cymru, gan helpu i adeiladu economi sylfaenol gadarn.

Fel deiliad cytundeb a gomisiynwyd blaengar ar Raglenni Dysgu Seiliedig ar Waith, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gadw ein safle fel prif ddarparwr rhaglenni prentisiaethau ar draws y 22 Ardal Awdurdod Lleol, ac ymateb yn uniongyrchol i anghenion ar sail tystiolaeth yr economi fel y nodwyd gan gyflogwyr sy'n arwain ar y tri Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sefydledig.

Rydym yn cydnabod yr angen am gomisiynu rhanbarthol ar sail tystiolaeth gryf, tra'n cefnogi gofynion cenedlaethol ein cyflogwyr partner yng Nghymru.

Rydym yn cychwyn y Cynllun Strategol hwn mewn cyfnod o heriau sylweddol yn wleidyddol, yn strwythurol ac ar adeg pan fo prinder adnoddau dynol sylweddol mewn nifer o'n sectorau pwysig.

Rydym yn cynnal trafodaethau parhaus gyda phartneriaid busnes ar geisio dod o hyd i ateb mwy cynaliadwy i ddiogelu gweithlu'r dyfodol ac yn gynnar yn 2020, bydd hyn yn ffocws strategol sylweddol o ran cyflawni'r cynllun hwn.

A portrait of Arwyn Watkins OBE, a middle-aged man with grey hair and a beard, wearing a dark suit jacket over a red and white checkered shirt. He is smiling and looking towards the camera. In the foreground, there are bright yellow flowers. A small logo is visible on his jacket.

Arwyn Watkins OBE
Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cadeirydd

CRYNODEB 2015 – 2018...

Rydym yn un o briff DDARPARWYR HYFFORDDIANT SEILIEDIG AR WAITH CYMRU

sy'n darparu prentisiaethau o safon
uchel ar draws Cymru ers 1995...



**MAE GAN CTC 71
AELOD O STAFF**



**ERS MIS
MAWRTH 2013**



**PARTNERIAID
cystadleuaeth sgiliau
CYMRU ERS 2016**



1,672
o brentisiaid
**WEDI CAEL
CYMWYSTERAU**



worldskillsuk
GO FURTHER, FASTER
Partner trefnu
ERS 2015



**ROWND DERFYNOL GWOBRAU
PRENTISIAETHAU CYMRU**



**MEDAL WORLDSKILLS
E R S ' 1 5**

CYNNYDD O



MEWN TROSANT

CYNNYDD O



**MEWN CEIR
CWMNI HYBRID**

TIRWEDD GYFLAWNI...

Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb fel deiliad Contract a Gomisiynwyd o ddifrif, ac yn rhoi cyfle cyfartal i fusnesau ac unigolion waeth beth fo'u lleoliad o fewn ein cyfyngiadau daearyddol a chytundebol.

Fel tîm, rydym wedi datblygu dull strategol o oresgyn yr heriau a gweithio gyda chyflogwyr cenedlaethol i ddarparu ateb o Gymru.

Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian (CTC) yn ddarparwr hyfforddiant annibynnol gyda'i bencadlys yn y Trallwng. Mae gennym swyddfeydd wedi'u lleoli'n strategol ar draws Cymru; Caerdybi, Bae Colwyn, Llanfair-ym-Muallt, Llanelli a Stadiwm Principality yng Nghaerdydd. Rydym yn cyflogi 70 o staff amser llawn a rhan-amser.

Mae gan CTC drefniadau is-gontractio ar gyfer darparu'r dysgu gyda; Sirius Skills, Progression, Haddon, Call of the Wild, Lifetime Training ac The Wisser Academy.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wthio blaenoriaethau'r Gweinidogion yn eu blaen, sydd yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd mewn Sgiliau Lefel Uwch, ac rydym wedi parhau i adeiladu ar ein partneriaethau dan arweiniad cyflogwyr, a bob amser yn ceisio darparu ateb parhaus waeth beth fo'r lleoliad yng Nghymru.

Rydym yn gweithredu amrywiaeth o atebion cyflenwi mewn partneriaeth i gefnogi ein sylfaen cyflogwyr, fel y gellir cynnig mwy o gyfleoedd i unigolion sy'n newydd i gyfleoedd cyflogaeth a datblygu sgiliau.

Gyda chomisiynu contractau ar hyn o bryd yn amodol ar dendro i'w cyflenwi yn 2020 a 2021, cryfder ein hymagwedd bartneriaeth at sicrhau atebion fydd y sail ar gyfer llwyddiant cynaliadwy yn y dyfodol.



LLWYDDIANT PRENTISIAETHAU

Thomas Martin, Prentis Sylfaen y Flwyddyn LIC 2018

Craig Holly, Medal Arian Cigyddiaeth Worldskills 2018

Peter Rushforth, Capten Tîm Cigyddiaeth Cymru 2019

Rebekah Chatfield, Prentis y Flwyddyn CTC 2019

(CHWITH I DDE)



SGILIAU A GWOBRAU

Mae Hyfforddiant Cambrian yn eiriolwyr brwd dros y sgiliau a'r cystadlaethau sgiliau sy'n hyrwyddo Cymru. Rydym wedi trefnu cystadleuaeth WorldSkills UK mewn Cigyddiaeth, rowndiau rhanbarthol Cystadleuaeth Sgiliau Lletygarwch Cymru i'r rownd derfynol Cymru gyfan, ynghyd â'r gystadleuaeth sgiliau cynhwysol ar gyfer lletygarwch.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cystadlaethau sgiliau ac ar ran Cymdeithas Goginio Cymru, rydym yn darparu Pencampwriaethau Coginio Rhyngwladol Cymru, sy'n dathlu ei 25ain blwyddyn yn 2019.

Rydym yn cynnal ac yn cefnogi Timau Coginio Cymdeithas Goginio Cymru, sy'n cystadlu'n rhyngwladol yng nghystadlaethau Cogyddion y Byd, fel Global Chef, Cystadleuaeth Cwpan Coginio'r Byd a'r Gemau Olympaidd Coginio.

Rydym yn rheoli'r gwaith o drefnu cystadlaethau Cogydd Iau a Chenedlaethol Cymru bob blwyddyn hefyd.

Ar hyn o bryd, rydym yn ceisio sicrhau tîm a chymorth ariannol i ymuno â Her Cigyddion y Byd 2020 yn Sacramento California fel Tîm Cymru, ac adeiladu ar etifeddiaeth cigydd ifanc y flwyddyn Cymru a llwyddiant World Skills UK.

Fel Hwb Canolbarth a Gogledd Cymru yn rhaglen Have a Go, Inspiring Skills Excellence, rydym yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i gefnogi eu nodau a'u hamcanion.

World leading completion exposure is a benchmark of aspiration not only for our learners but also our staff in their pursuit of delivering excellence within the curriculum. Mae amlygu cwblhau ar raddfa fyd-eang yn feincnod o ran dyhead, nid yn unig i'n dysgwyr ond hefyd, i'n staff wrth iddynt geisio cyflawni rhagoriaeth o fewn y cwricwlwm.

LLWYDDIANT CYFLOGWYR

Celtic Manor, Rownd Derfynol Cyflogwr Mawr y Flwyddyn LIC 2017
Mainetti, Rownd Derfynol Cyflogwr Canolig y Flwyddyn LIC 2018
Celtica Foods, Cyflogwr Canolig y Flwyddyn LIC 2018
Lelo Skips, Rownd Derfynol Cyflogwr Bach y Flwyddyn LIC 2018
(CHWITH I DDE)



YN ÔL DATA CAMBRIAN...

Mae gan y cwmni tua 1,590 o Brentisiaid sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau ar draws Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac o'r rhain, mae tua 788 yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol drwy Hyfforddiant Cambrian, ac mae tua 802 yn cael eu darparu drwy ein his-gontractwyr sy'n cwmpasu sectorau galwedigaethol ar draws rhaglenni Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau a rhaglenni Prentisiaethau Uwch.

Meysydd Arolygu	Barn
0.1) Safonau/Agweddau	
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol	Da
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol	Da
1.3 Safonau a chynnydd mewn sgiliau	Da
0.2) Lles ac Agweddau at Ddysgu	
2.1 Lles	Da
2.2 Agweddau at ddysgu	Da
0.3) Addysgu a Phrofiadau Dysgu	
3.1 Ansawdd y dysgu	Da
3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodolrwydd y cwricwlwm	Da
3.3 Darpariaeth sgiliau	Da
0.4) Gofal, Cymorth ac Arweiniad	
4.1 Olrhain, monitro a darparu cefnogaeth dysgu	Da
4.2 Datblygiad personol	Da
4.3 Diogelu	Da
0.5) Arweinyddiaeth a Rheolaeth	
5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr	Da
5.2 Prosesau hunanwerthuso a gwella cynllunio	Da
5.3 Dysgu proffesiynol	Da
5.4 Defnyddio adnoddau	Da

*Data cyffredinol - Chwef 2019 - 2018/19 Gwerth y Cytundeb; £4,695,405



FFIGURAU DEILLIANNAU DYSGWYR CAMBRIAN

Cyfraddau Llwyddiant y Fframwaith dros y tair blynedd diwethaf:

	2015/16	2016/17	2017/18	Cymharydd Cenedlaethol 2017/2018
Prentisiaethau Sylfaenol (Lefel 2)	86%	84%	81%	81%
Prentisiaethau (Lefel 3)	84%	84%	84%	83%
Prentisiaethau Uwch (Lefel 4+)	77%	71%	81%	80%
Yr Holl Raglenni	83%	80%	82%	81%

BARN EIN PRENTISIAID A'N CYFLOGWYR...



“Mae'r tîm Rheoli Adnoddau Cynaliadwy yn Cambrian yn ymroddedig iawn.”

“Mae Cambrian yn gwmni da, ac maen nhw eisiau sicrhau bod y busnesau maen nhw'n gweithio gyda nhw yn elwa o'r hyfforddiant maen nhw'n ei ddarparu.”

“Nid ymarfer ticio bocys ydio, o'i gymharu â chwmnïau hyfforddi eraill 'dwi wedi dod ar eu traws.”

MAINETTI, WRECSAM



“Mae llawer i'w ddweud dros brentisiaethau.”

“Oni bai am gefnogaeth ac anogaeth Hyfforddiant Cambrian, fuaswn i ddim wedi mynd i Lundain, a oedd yn bwynt allweddol yn fy ngyrfa.”

**THOMAS MARTIN,
PRENTIS COGYDD**




Y CYFLEOEDD A'R HERIAU AR GYFER Y 3 MLYNEDD NESAF...

- 1.** Awtomeiddio a thechnoleg, achosi newid sylweddol, aildosbarthu tasgau ac ail-weithio swyddi yng Nghymru.
- 2.** Poblogaeth hŷn yng Nghymru, a fydd yn heneiddio'n sylweddol o nawr tan ddiwedd y 2030au.
- 3.** Yr ansicrwydd ynghylch Brexit, ein perthynas yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd, a threfniadau ariannu ar ôl BREXIT.
- 4.** Natur gyfnewidiol globaleiddio a'i effaith ar economi Cymru.
- 5.** Lleihau anghydraddoldebau economaidd presennol Cymru, a chryfhau economi Cymru ar gyfer y dyfodol.
- 6.** Amgylchedd polisi ac ariannu sy'n cynnig diogelwch, sicrwydd a chysondeb, tra'n sicrhau bod y system sgiliau yn effeithlon ac yn cyflawni anghenion dysgwyr a'r economi.
- 7.** Cyflawni ar y cyfleoedd sydd wedi cael eu creu yn sgil y diwygiadau diweddar ac sydd ar ddod i lywodraethu rhannau o'r system sgiliau yng Nghymru
- 8.** Datblygu ymgysylltiad cryfach â chyflogwyr yn y system sgiliau, o'r lefel dosbarth i fyny.
- 9.** Datblygu ymgysylltiad cryfach â'r dysgwr, fel bod y cwricwlwm yn cael ei lunio ar y cyd rhwng dysgwyr, myfyrwyr, cyflogwyr a darparwyr.
- 10.** Datblygu system sgiliau sy'n cyflawni ar draws daearyddiaeth unigryw Cymru, gan gefnogi iaith a diwylliant Cymru, a galluogi pobl o bob rhan o Gymru i gael mynediad teg i'w fanteision.

Mae cyfran sylweddol o weithlu 2030 a 2040 Cymru wedi gadael addysg orfodol yn barod. Mae mwy na 80 y cant o weithlu rhagamcanol Cymru yn 2030, a mwy na 60 y cant o weithlu 2040 eisoes wedi gadael addysg orfodol. Er mwyn cael effaith sylweddol ar sgiliau, gwytnwch a galluoedd gweithlu Cymru yn y dyfodol, mae hyn yn dangos na fydd canolbwyntio ar bobl ifanc a darpariaeth oedran ysgol yn ddigon.





YMGYSYLLTU. YSBRYDOLI. LLWYDDO.

Ein cenhadaeth yw **YMGYSYLLTU** â'r holl bobl ifanc, dysgwyr a chyflogwyr ar draws Cymru i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant prentisiaeth o ansawdd.

A fydd yn **YSBRYDOLI** busnesau, eu gweithlu, y genhedlaeth nesaf a'r gymuned ehangach i'w helpu a'u cefnogi i **LLWYDDO** i gyrraedd eu nodau gyrfa, busnes a bywyd.

Disgrifiad delwedd:

Rob Hookham ac Anna Jones, Celtic Manor

NODAU STRATEGOL 2019 – 2022

CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL

Darparu ystod amrywiol o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus a chymunedol. Ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynnwys mewn Prentisiaethau a'r manteision sy'n gysylltiedig â dysgu seiliedig ar waith. Gweithio gyda g ysgolion a cholegau, ac athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd a rhieni hefyd, i gynyddu gwybodaeth am y cyfleoedd addysg ehangach.

Bydd ein polisiau a'n prosesau gweithredol yn sicrhau ein bod ni'n cydbwysio effeithlonrwydd gydag ansawdd a chyfleoedd i greu budd cymdeithasol ac amgylcheddol o fewn cymunedau.

Amcanion:

- Cefnogi seilwaith cyflogaeth a sgiliau'r rhanbarthau drwy gyfrannu at gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth parhaus mewn cymunedau lleol.
- Sicrhau bod yr holl ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu cynnwys yn ein polisiau, prosesau a'n dogfennaeth
- Cefnogi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Ymrwymo i gynaliadwyedd amgylcheddol drwy gefnogi ein staff, dysgwyr a chyflogwyr i gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, a'u galluogi i wneud gwahaniaeth yn y dyfodol.
- Cefnogi 'atal' ym mhob agwedd sy'n ymwneud â lles, gan gynnwys hyrwyddo gwaith teg, ysgogi twf cynaliadwy, a helpu i frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Hyrwyddo lles i bawb ac uwchlaw popeth, cefnogi pobl ifanc, adeiladu uchelgais a dysgu gydol oes.

DPA 1) Ehangu cyfranogiad - cynyddu pontio uniongyrchol rhwng ysgolion a cholegau

DPA 2) Cadw ein statws Draig Werdd Efydd ac ennill y statws Aur erbyn 2020

DPA 3) Cynyddu ein proffil prentisiaethau ifanc lle mae dysgwyr yn newydd i gyflogaeth.

DPA 4) Sicrhau ein bod ni'n parhau i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw

ANSAWDD

Rydym yn ymdrechu i sicrhau canlyniadau a deilliannau rhagorol. Mae ein staff yn ffactorau allweddol yn ein llwyddiant; rydym yn parhau i ddatblygu diwylliant sy'n canolbwyntio ar berfformiad, ac sy'n cofleidio newid a gwelliant parhaus ym mhopeth a wnawn. Rydym yn ceisio cefnogi cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru drwy ddarparu arweinwyr ysbrydoledig a fydd yn gweithio gyda'i gilydd i godi safonau dysgu, addysgu ac asesu seiliedig ar waith yng Nghymru. Mae pob rôl yn gydnaws â'r safonau proffesiynol a bydd hyn yn parhau i gael ei atgyfnerthu a'i wella dros y blynyddoedd i ddod.

Amcanion:

- Sefydlu seilwaith dysgu digidol sy'n annog dysgu ac sy'n cysylltu dysgwyr â'i gilydd a sefydliadau addysgol
- Gwella ansawdd arweinwyr a rheolwyr drwy'r adeg drwy ddatblygu a denu'r staff mwyaf disglair a gorau
- Cymell, cynnwys a hysbysu ein gweithlu yn gyson, a datblygu staff ymatebol a medrus
- Rhoi'r sgiliau cywir i staff a dysgwyr ar gyfer byd sy'n newid, a sicrhau bod cyfleoedd dilyniant yn bosibl
- Rhoi'r profiad gorau i ddysgwyr drwy gydol eu taith

DPA 1) Cynnal cyfradd gadael staff o 80% gyda chyfradd bodlonrwydd o 90%.

DPA 2) Cynnal graddfa deilliannau dysgwyr o 80%, gyda chyfradd bodlonrwydd dysgwyr/cyflogwyr o 90%



Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn monitro perfformiad y sefydliad yn erbyn y cynllun hwn yn rheolaidd, ac yn ei adolygu'n barhaus a'i ddiweddarau bob blwyddyn.

EFFEITHLONRWYDD

O ystyried y newidiadau mewn modelau ariannu a chyni, mae'n rhaid i ni barhau i reoli costau er mwyn sicrhau gwerth am arian ym mhopeth a wnawn. Byddwn yn parhau i hybu effeithlonrwydd a chynaliadwyedd tra'n cynnal ansawdd a chynhyrchiant y ddarpariaeth. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnal perthnasau gyda phartneriaid busnes allweddol, gan adeiladu ar anghenion y gymuned, a darparu cymorth cynaliadwy ar gyfer cynyddu sgiliau a chyflogadwyedd.

Amcanion:

- Parhau i reoli ein data a'n diogelwch yn effeithiol, gan gynnwys cadw safon ISO27001 ac ennill safon ISO9001
- Sicrhau cydymffurfiaeth statudol a rheoliadol
- Cynllun clir ar gyfer cynnal a chadw adeiladau a seilwaith, gan sicrhau bod digon o gyllideb ar gael
- Cynyddu refeniw drwy Flaenoriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- Rheoli costau'n effeithiol er mwyn ateb anghenion y busnes
- Adroddiadau misol ar broffidioldeb a sefydlogrwydd
- Cynllun clir ar gyfer cynnal a chadw seilwaith TGCh, a sicrhau bod digon o gyllideb ar gael
- Parhau i leihau nifer o gerbydau allyriadau uchel y cwmni
- Sefydlu Gweithgor Staff i drafod materion Amgylcheddol yn unol â'r Cynllun Amgylcheddol, i barhau i leihau ein hól troed carbon

DPA 1) Cyflawni EBITDA i £559,000

DPA 2) Sicrhau bod 80% o geir y cwmni yn hybrid

DPA 3) Sefydlu Gweithgor Staff gyda thargedau mesuradwy ar ei amcanion

TWF

Bydd Hyfforddiant Cambrian yn parhau i fod wrth wraidd y cydweithio strategol rhwng cymunedau, cyrff a ariennir gan y Llywodraeth, cwmnïau mawr a Busnesau Bach a Chanolig. Byddwn yn datblygu'r busnes i fuddsoddi yn ein cymunedau, ac ysgogi ymgysylltu â chyflogwyr, menter ac arloesedd. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi a dangos tystiolaeth o'r galw am Brentisiaethau Uwch a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Amcanion:

- • Datblygu partneriaethau a llwybrau hyblyg i mewn ac allan o ddysgu seiliedig ar waith
- Gweithio gydag ysgolion a cholegau i nodi a gweithredu atebion dysgu seiliedig ar waith i unigolion a chymunedau ifanc
- Amrywiaethu ein hincwm i gynnwys ffrydiau ariannu eraill
- Gweithredu proses systematig i fesur a gweithredu galw daearyddol a sectorol am wasanaethau
- Sicrhau bod adolygiadau o Brentisiaethau yn bodloni anghenion cyflogwyr ac unigolion

DPA 1) Gyrru mwy o refeniw drwy ffrwd incwm yr RSP ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith

DP2) Amrywiaethu'r ffrwd incwm i ffrwd oddi wrth y ddarpariaeth a ariennir gan y Llywodraeth

DPA3) Cynyddu'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn dysgu seiliedig ar waith







BREUDDWYD. DYSGU. BYW.

Rydym eisiau i bawb sylweddoli, drwy ddechrau ar eu taith brentisiaeth eu hunain, y gallant gyflawni eu **BREUDDWYDION**, drwy **DDYSGU** sgiliau a gwybodaeth newydd, ac ennill profiad a fydd yn eu helpu i **FYW** yn unol â'u nodau bywyd yn y pen draw.

Disgrifiad delwedd:

Thomas Martin, Cogydd Prentis, Enillydd Prentis y Flwyddyn Cymru 2018.

**YMGYSYLLTU.
YSBRYDOLI.
LLWYDDO.**

**T/F: 01938 555893
E: INFO@CAMBRIANTRAINING.COM**

CAMBRIANTRAINING.COM

